**Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth**

| |
|---|
| **Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau? |
| Byddai cymhlethdod mewn unrhyw wasanaeth yn debygol o lesteirio gwella gwasanaethau, ond credwn fod ychwanegu haen ychwanegol ar lefel rhanbarthol, a drwy wneud hynny mynd yn bellach o'r unigolyn, yn sicr o ychwanegu cymhlethdod nid ei leihau.<br><br>Nid yw bob amser yn hawdd osgoi cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol, o ganlyniad i bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau. Wedi dweud hynny, mae gennym le i symleiddio rhai agweddau ar waith y sector er mwyn gwella gwasanaethau i'n cleifion, er enghraifft drwy weithio'n integredig ac ar lefel mwy lleol.<br><br>Mae'r Papur Gwyn yn dadlau bod trefniadaeth gyfredol y sector yn gymhleth, ond credwn y byddai'r newidiadau a gynigir yn ychwanegu haenau o gymhlethdod yn ddiangen drwy symud y penderfyniadau sy'n bwysig i'n hunigolion ymhellach i ffwrdd drwy eu cyflwyno ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>O ganlyniad, buasem hefyd yn symud i ffwrdd o fod yn gwneud be sy'n bwysig i'r unigolyn a'u rhoi yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae Cymru Iachach yn pwysleisio'r angen i fod yn gwneud hyn, ac mae'r Papur Gwyn yn dadwneud y gwaith yma drwy ranbartholi gwaith. |
| **Cwestiwn 2**: A ydych yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael? |
| Ers rhai blynyddoedd bellach yng Ngwynedd rydym wedi adnabod yr angen i weithio yn llawer agosach gyda'n darparwyr gofal, boed nhw yn allanol neu yn fewnol, o ran cynllunio gwasanaethau a chefnogaeth i unigolion. Felly yn hynny o beth rydym yn ceisio symud i ffwrdd o drefniadau traddodiadol caffael yn barod ar gyfer y maes gofal. Byddai'r cynigion gerbron yn debygol o lesteirio'r newidiadau cyffrous arloesol sydd ar waith gennym. |
| **Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno bod gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cael ei gyfyngu gan eu dyluniad a'u strwythur? |
| Mae angen cymryd i ystyriaeth gwahanol ranbarthau o fewn Cymru, gan roi sylw i'r ffaith bod rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys llawer o wahanol ardaloedd gyda gwahanol anghenion i'w gilydd.<br><br>Llywodraeth Cymru sydd wedi gosod dyluniad a strwythur Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac nid yw anghenion rhanbarth Gogledd Cymru bob amser yn cael ei |

| |
|---|
| ystyried o fewn hyn, gan olygu bod gwneud penderfyniadau a chynnal trafodaethau ar lefel ranbarthol yn gallu bod yn anodd ar adegau, o ystyried maint y rhanbarth.<br><br>Gyda'r dyluniad a'r strwythur cywir, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu bod yn gryfder i rwydweithio ac i gyflawni ar rhai materion penodol iawn, ond byddai trefniadau partneriaethol mwy lleol yn fwy tebygol o roi canlyniadau gwell i bobl Gwynedd na threfniadau rhanbarthol. |
| **Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau? |
| Rydym yn croesawu'r angen i gael gwell ffocws ar ansawdd gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r Papur Gwyn yn gosod bwriad clir sy'n amlygu'r modd y bydd y maes gofal yn cael ei ariannu yn y dyfodol. Awgrymir y dylid cronni cyllidebau yn rhanbarthol, ond mae'n anodd gweld sut y byddai hyn yn gwella gwasanaethau ar lefel leol, ac yn wir mae'n fwy tebygol o greu cymhlethdodau fyddai'n dirywio ansawdd.<br><br>Byddai fframwaith cenedlaethol o fudd i ni mae'n debyg ar faterion lle mae angen ymyrraeth genedlaethol - e.e. pe byddai'n cynnwys telerau ac amodau gwell o ran ffioedd i staff sy'n gweithio yn y sector gofal, ynghyd ag ymrwymiad i ariannu yn deg fel bod modd i awdurdodau lleol wneud hyn.<br><br>Ond nid oes modd i ni ragweld a fyddai fframwaith cenedlaethol o'r fath o fudd i ni ar lefel leol hyd nes y gwyddom beth sy'n cael ei gynnwys ynddo, a sut y bydd yn cael ei weithredu. Mae angen llawer fwy o fanylder mewn gwirionedd cyn gallu ymateb i'r cwestiwn yma yn iawn. |
| Cwestiwn 4a: - Pa rannau o'r cylch comisiynu ddylai gael eu hadlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol? |
| Unwaith eto heb gael mwy o fanylder mae'n anodd rhoi ymateb cynhwysfawr, ond yn gyffredinol, mae'n bwysig bod anghenion ein poblogaeth yn lleol, o fewn ardaloedd penodol y sir yn cael eu hadnabod a bod hynny wedyn yn bwydo mewn i gomisiynu ar lefel lleol lle'n bosib.  Os oes materion, oherwydd niferoedd neu ofynion arbenigedd, angen ymateb ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol, byddai bosib wedyn cynnal y trafodaethau ar y lefel honno. |
| **Cwestiwn 5:** A ydych yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol? |
| Byddai'n ddefnyddiol pe byddai modd bod yn gliriach o ran be mae'r Llywodraeth yn weld yw'r broblem ar hyn o bryd, gan wedyn amlygu sut maent yn gweld fframwaith cenedlaethol yn ei datrys. Mae diffyg gwybodaeth a manylder o fewn y Papur Gwyn i alluogi ymateb synhwyrol. |

| |
|---|
| Mae gwaith da wedi bod yn digwydd ar lefel leol a rhanbarthol o ran trefniadau comisiynu a darparu yma yn y Gogledd. Mae gofal a chymorth yn rhywbeth personol iawn i bob unigolyn, ac rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion i weithio i ddarparu'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn fel eu bod yn gallu byw eu bywydau fel y dymunant.<br><br>Nid ydym yn sicr faint fyddai fframwaith cenedlaethol yn ei ychwanegu at y trefniadau sydd gennym ar waith eisoes, nid ydym yn awyddus i ddyblygu gwaith na chreu mwy o waith i'n hunain. |
| Cwestiwn 5a- Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth y GIG o ofal nyrsio a ariennir, ond nid ydynt yn cynnwys gofal iechyd parhaus; a ydych yn cytuno â hyn? |
| Nid ydym yn cytuno y dylai gofal iechyd parhaus gael ei gadael allan o unrhyw ystyriaeth. I'r unigolyn mae sawl pryder a rhwystr yn cael ei brofi o fod yn cadw'r trefniadau gofal iechyd parhaus ar wahân i drefniadau gofal. Mae cyfle yma i'r Papur Gwyn fynd i'r afael gyda'r rhwystrau hyn o ran profiad cleifion. |
| Cwestiwn 5b- A oes gwasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol? |
| Mae'n anodd, os nad amhosib, ateb y cwestiwn yma heb fwy o fanylder. |
| **Cwestiwn 6**: A ydych yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol? |
| Mae'n anodd iawn ateb y cwestiwn heb fwy o fanylder a gyda mwy o dystiolaeth o ran pam mae angen Swyddfa Genedlaethol.<br><br>Mae nifer o grwpiau cenedlaethol yn bodoli eisoes, ond nid yw'n glir pa fuddion fyddai'n deillio o'u cyfuno drwy greu swyddfa genedlaethol. Eto, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn a fyddai hyn yn dyblygu neu'n creu mwy o waith. |
| Cwestiwn 6a- Os felly, pa rai? |
| Gweler yr ymateb uchod |
| **Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau? |
| Ar sail y cyfrifoldebau presennol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, nid oes angen i'r byrddau fod yn endidau cyfreithiol corfforaethol. |
| Cwestiwn 7a- A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried i gryfhau integreiddio rhanbarthol ymhellach drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol? |
| Nid oes angen cryfhau integreiddio'n rhanbarthol gan fod hyn eisoes yn digwydd, ac yn gweithio'n llwyddiannus, ar lefel leol. |

**Cwestiwn 8**: A ydych yn cytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau?

Mae cael y wybodaeth hon i law ar lefel leol yn bwysig er mwyn ein helpu i lunio gwasanaethau'n well, gan addasu yn ôl yr angen.

Cwestiwn 8a- O fewn y cylch 5 mlynedd, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?

Byddai sicrhau bod y cynllunion yma yn digwydd ar lefel lleol iawn ac yn rhan o gynllunio naturiol cymunedol - o fewn clystyrau cymunedol yn fuddiol.  Mae angen sicrhau bod y gwaith ataliol o fewn cymuned a gwydnwch cymunedol yn rhan allweddol o gynllunio fewn y maes iechyd a gofal. Gwelwyd hyn yn glir gyda'r ffordd y bu i ni ymateb i argyfwng Covid - gan weithio mewn gwirionedd hyd yn oed mwy fyth ar lefel lleol.  Bu i'r gwaith rhanbarthol oedi ac yn naturiol bu i arweinwyr edrych ar eu rhwydweithiau lleol er mwyn ymateb. Mae angen adlewyrchu ar hyn o fewn y Papur Gwyn.

**Cwestiwn 9:** A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddadl dros newid?

Oes. Mae angen meddwl am ffyrdd gwahanol o ddatrys yr heriau sy'n ein hwynebu yn y maes. Mae Cymru Iachach yn mynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon, felly credwn y dylid dilyn yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys ynddo, yn hytrach na dilyn cyfeiriad y Papur Gwyn.

Mae'r Papur Gwyn mewn perygl o ddadwneud llawer o'r gwaith da sydd wedi bod yn digwydd yn lleol yn y maes i ddarparu gofal o ansawdd da yn ôl anghenion yr unigolion.

Cwestiwn 9a- beth ddylai'r rhain fod?

Rydym yn barod iawn i drafod ymhellach fel Cyngor gyda chi er mwyn dangos y dystiolaeth sydd gennym o ran integreiddio a gweithio yn lleol gan ddwyn ein darpariaethau gofal i mewn fwy fyth i'r datrysiadau ar lefel lleol.

**Cwestiwn 10**: Beth yn eich barn chi yw costau ac arbedion cost y cynigion i gyflwyno swyddfa genedlaethol a sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol?

Byddai'n costio'n ddrud i sefydlu'r pethau hyn, a byddai hyn ar draul arian y gallwn ei wario yn rhywle arall er budd y cleifion, e.e. ar ddarpariaethau, adnoddau neu staff. Nid yw'n glir beth yw'r budd o sefydlu'r cyrff cenedlaethol a rhanbarthol hyn ond byddai defnyddio'r arian ar wella darpariaethau uniongyrchol i unigolion a chyflogau staff gofal yn gwneud fwy o wahaniaeth yn sicr.

Cwestiwn 10a- A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion yr hoffech eu codi?

Gweler ymateb uchod.

| |
|---|
| **Cwestiwn 11**: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau’n cael eu trefnu’n rhanbarthol, a’u cyflwyno’n lleol, yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.<br>Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol? |
| Nid oes unrhyw sôn am y Gymraeg na’r effaith ar yr iaith yn y Papur Gwyn, felly mae hyn yn codi pryder mawr nad oes unrhyw ystyriaeth wedi cael ei roi i’r effaith y byddai’r newidiadau hyn yn ei chael arni.<br><br>Mae fframwaith Mwy na Geiriau yn golygu bod angen i gleifion dderbyn gwasanaeth yn yr iaith maen nhw’n dymuno ei gael, heb orfod gofyn. Byddem yn gobeithio na fyddai unrhyw newid i’r disgwyliad hwn, ac y byddai’r fframwaith yn cael ei gryfhau ymhellach gyda dyfodiad unrhyw newidiadau. |
| **Cwestiwn 12**: Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau’n cael eu trefnu’n rhanbarthol, a’u cyflwyno’n lleol, er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. |
| Eto, mae hyn yn debygol o fod yn anodd ei gyflawni o ystyried demograffeg ranbarthol Gogledd Cymru. Mae’n ardal fawr gydag anghenion ieithyddol amrywiol felly byddai’n anodd cael polisi fyddai’n addas i bob ardal. |